

Dyddiad: Dydd Mercher 22 Tachwedd 2000
Amser: 9.00am i 12.25pm
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Adroddiad yr Ombwdsmon ac Ymateb Drafft y Prif Ysgrifennydd

Rheol Sefydlog 21 – Gweithdrefnau Cwynion

1. Mae Rheol Sefydlog 21 yn cwmpasu'r gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer ystyried adroddiadau oddi wrth Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a Chomisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru. Os bydd yr adroddiad yn datgan bod yr achwynydd wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i gamweinyddu, bydd Ysgrifennydd y Cynulliad, cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl cael yr adroddiad, yn ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn ynghyd ag ymateb drafft i'r adroddiad, gan ddatgan y camau a gymerwyd neu y bwriedir eu cymryd.

2. Yn ei gyfarfod ar 11 Hydref cytunodd y Pwyllgor y byddai'n rhaid i Aelodau roi rhybudd o'r materion arbennig yr hoffent eu trafod cyn y gallai'r Pwyllgor drafod adroddiadau'r Ombwdsmon sy'n datgelu camweinyddu. Os hoffai unrhyw Aelod drafod hyn yn y Pwyllgor dylent gysylltu â Chlerc y Pwyllgor. Os na dderbynnir cais am drafodaeth fwy manwl, yr unig beth y gofynnir i'r Pwyllgor ei wneud yw cymeradwyo ymateb y Prif Ysgrifennydd yn ffurfiol yn eu cyfarfod nesaf.

Y Gyn

3. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ystyried un adroddiad oddi wrth yr Ombwdsmon mewn perthynas â Mr A.

Achos Ombwdsmon R10/99-00, Mr A

4. Mae manylion y gyn hon wedi eu nodi yn atodiad 1, a cheir copi o adroddiad yr Ombwdsmon yn atodiad 2. Mae ymateb arfaethedig y Prif Ysgrifennydd ar gyfer ei anfon at yr Ombwdsmon yn atodiad 3.

Cynnig

5. Gwahoddir y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i gymeradwyo ymateb drafft y Prif Ysgrifennydd at Ombwdsmon Cymru a geir yn atodiad 3.

Crynodeb Achos: Achos Ombwdsmon R10/99-00, Mr A

Y Gyn

Cwynodd NFU Cymru ar ran eu haelod Mr A fod cyn Adran Amaethyddiaeth y Swyddfa Gymreig wedi oedi cyn cyhoeddi tair Dogfen Adnabod Gwartheg (CIDs), a olygodd bod Mr A wedi colli ei daliad premiwm cyntaf o'r Cynllun Premiwm Arbennig Eidion (BSPS) ar y tri anifail hynny.

Cefndir

Cyflwynodd Mr A ffurflen gais ar y cyd ar gyfer pedwar pasbort gwartheg ar 7 Medi 1997, ac ar gyfer tri CID ar gyfer tri o'r pedwar anifail hynny. Ar 24 Medi 1997, cyhoeddodd Swyddfa Ranbarthol Llandrindod y pedwar pasbort gwartheg, ond dim un o'r CIDs.

Ar 19 Ebrill 1999, ffoniodd Mr A y Swyddfa Ranbarthol ynglŷn â'r CIDs coll, gan ei fod yn pryderu y byddai'r tri anifail o dan sylw yn rhy hen i fod yn gymwys ar gyfer Premiwm Cyntaf BSPS. Cyngorwyd Mr A y byddai'r CIDs yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl, ac y dylai gyflwyno ei ffurflen yn hawlio premiwm cyntaf ar gyfer yr anifeiliaid hynny, gan amgáu llythyr yn esbonio'r sefyllfa.

Ar 20 Ebrill 1999, cyflwynodd Mr A ei ffurflen yn hawlio premiwm cyntaf, a oedd yn cynnwys hawliad am y tri anifail o dan sylw ynghyd â llythyr yn esbonio'r sefyllfa.

Gwrthodwyd cais Mr A am bremiwm cyntaf ar y tri anifail ar y sail eu bod yn rhy hen. Serch hynny, cynigiodd y Swyddfa Ranbarthol gynnwys yr anifeiliaid ar ffurflen hawlio ail bremiwm. Apeliodd Mr A yn erbyn y dyfarniad i wrthod yr anifeiliaid am bremiwm cyntaf. Fodd bynnag, cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol ar y sail nad y CID oedd y rheswm pennaf am ddyfarnu oed anifail, a taw cyfrifoldeb y ffermwr oedd sicrhau bod ganddo'r dogfennau gywir ar gyfer ei anifeiliaid. Yn ychwanegol at hyn, roedd y ffurflen gais am CIDs yn nodi'n glir na fyddai cynhyrchwyr yn derbyn cydnabyddiaeth o'u cais, ac y dylent gysylltu â'u Swyddfa Ranbarthol os nad oeddent wedi derbyn y dogfennau o fewn 14 diwrnod o wneud eu cais.

Darganfyddiadau Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru

Cyflwynodd Mr A ei gais am CIDs a Phasbortiau Gwartheg ar 7 Medi 1997. Cyhoeddodd Adran Amaethyddiaeth y Swyddfa Gymreig y Pasbortiau Gwartheg ar 24 Medi 1997, ond ni chyhoeddodd y CIDs hyd 19 Ebrill 1999. Roedd yr oedi cyn cyhoeddi'r CIDs yn gamweinyddiaeth ar ran yr Adran Amaethyddiaeth.

Gellir hawlio premiwm cyntaf ar anifeiliaid sydd rhwng 8 ac 20 mis oed yn unig, a rhaid amgáu CID ar gyfer pob anifail. Ni fedrodd Mr A gyflwyno ffurflen hawlio ddilys am y tri anifail sydd o dan sylw oherwydd na chyhoeddodd yr Adran Amaethyddiaeth y CIDs hyd 20 Ebrill 1999. Felly, dioddefodd Mr A anghyfiawnder.


Tra penderfynodd yr Ombwdsmon ei bod yn glir i Mr A fethu â dilyn y cyngor ar y ffurflen gais CID, ac na hawliodd breimiwm cyntaf BSPS ar yr anifeiliaid hyn mewn pryd, ni allai'r ffactorau hyn yn unig fod yn rheswm dros wrthod premiwm cyntaf i Mr A. Roedd methiant Adran Amaethyddiaeth y Swyddfa Gymreig i ddarparu CIDs hefyd wedi cael effaith uniongyrchol ar y canlyniad yn y diwedd.

Casgliad Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru

Penderfynodd yr Ombwdsmon fod y llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol at Mr A yn ymddiheuro am fethiannau'r Adran Amaethyddiaeth, ac yn cynnig taliad ex gratia iddo o £132.06 (50% o'r taliad premiwm cyntaf ar gyfer y tri anifail) yn iawndal digonol.

Atodiad 2

Cyhoeddir yr atodiad hwn yn yr iaith y'i derbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.



ard17-1.gif (153809 bytes)



ard17-2.gif (163213 bytes)



ard17-3.gif (178167 bytes)




ard17-4.gif (186523 bytes)



ard17-5.gif (178537 bytes)



ard17-6.gif (165709 bytes)



ard17-7.gif (160629 bytes)



ard17-8.gif (172849 bytes)



ard17-9.gif (119523 bytes)

Atodiad 3

Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC AS

Eich Cyf; R10/99-00

Ein Cyf: SF/00-6656

Mr Michael Buckley
Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru
5ed Llawr
Capital Tower
Greyfriars Road
Caerdydd

Diolch ichi am lythyr eich Rheolwr Ymchwiliadau dyddiedig 17 Hydref yn amgau'r adroddiad terfynol ar y gyn bod Adran Amaethyddiaeth y Swyddfa Gymreig gynt (WOAD) wedi anfon tair Dogfen Adnabod Gwartheg at yr achwynwr yn hwyr a'i fod o ganlyniad wedi colli'i gyfle i wneud cais am daliad cyntaf y Premiwm Arbennig Eidion ar dri anifail.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiolchgar ichi am y gwaith a wnaed ac y mae erbyn hyn wedi ystyried a chloriannu darganfyddiadau'r Swyddog Ymchwiliadau. Gwelaf mai casgliad yr adroddiad oedd i'r ffermwr a WOAD ill dau gyfrannu at golli'r taliad. O ganlyniad i ymchwiliad yr Ombwdsmon, mae Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol wedi edrych o'r newydd ar y mater ac wedi derbyn na wnaeth ymdrin â'r mater cystal ag y dylai.

Gallaf gadarnhau i'r achwynwr dderbyn llythyr oddi wrth Mr Derek Jones ar ran yr Ysgrifennydd Parhaol yn ymddiheuro am ffaeleddau'r Adran ac yn cynnig taliad *ex gratia* o £132.06. Mae'r taliad hwn yn gyfwerth â 50% o'r taliad premiwm cyntaf y gallai fod wedi ei hawlio mewn perthynas â'r tri anifail dan sylw.

Mae'n dda gennyf glywed ichi gydnabod bod hyn yn gwneud iawn am y cam a wnaed.

Diolch am dynnu ein sylw at achos yr achwynwr hwn.